# NEWIDIADAU – AILGYLCHU CWESTIYNAU CYFFREDIN

## Beth yw'r rheolau newydd?

Mae'r rheolau newydd yn cynnwys dim gwastraff ychwanegol i gartrefi sydd â biniau ar olwynion, a dim mwy na dau fag du ar gyfer cartrefi heb fin.

## Pam mae rheolau newydd yn cael eu cyflwyno?

Ar hyn o bryd, mae RhCT yn rhagori ar darged Llywodraeth Cymru o ailgylchu 58% o wastraff. Ein cyfradd ni yw 64%.

Os fyddwn ni ddim yn bwrw'r targed o 70% erbyn 2024/25, mae'n bosibl y byddwn ni'n wynebu dirwyon o dros £1m. Afraid dweud, rydyn ni eisiau gwneud popeth o fewn ein gallu i osgoi hyn.

Chafodd 35,500 tunnell o wastraff ddim ei ailgylchu y llynedd. Rydyn ni'n amcangyfrif y byddai 25,000 tunnell o'r gwastraff hwnnw wedi gallu cael ei ailgylchu neu'i droi'n gompost. Petai chwarter o'r gwastraff hwnnw wedi'i ailgylchu, bydden ni wedi bwrw 71%.

Byddai'r dull newydd yn osgoi gorfod ystyried casglu gwastraff bob 3 neu 4 wythnos.

## Beth am y bobl hynny sydd eisoes yn ailgylchu?

Bydd y rheolau newydd yn targedu'r bobl sy ddim yn ailgylchu. Mae nifer fawr o drigolion eisoes yn ailgylchu. Mewn gwirionedd, rydyn ni'n amcangyfrif bod 75% o'n trigolion yn ailgylchu mewn ffordd dda, ac mae'n debygol fydd y rheolau ddim yn effeithio arnyn nhw. Dyma'n neges iddyn nhw: 'Parhewch â'ch gwaith da'.

## Sut byddwn ni'n gwybod pwy sy ddim yn ailgylchu?

Bydd staff Gofal y Strydoedd yn cofnodi pa gartrefi sy ddim yn rhoi deunyddiau ailgylchu allan i'w casglu. Byddan nhw'n targedu'r cartrefi hynny er mwyn rhoi gwybodaeth iddyn nhw am godi ymwybyddiaeth, neu'n ymweld â'r cartrefi hynny.

## Pryd caiff dirwy ei rhoi?

Mae'n bosibl caiff y trigolion hynny sy ddim yn cefnogi dyfodol mwy gwyrdd ar gyfer RhCT Hysbysiad Cosb Benodedig o £100. Rhoi dirwy, fodd bynnag, fydd y dewis olaf.

Cyn rhoi dirwy, bydd swyddogion gorfodi yn galw heibio i gartrefi sy ddim yn ailgylchu er mwyn rhoi cyngor iddyn nhw, yn ogystal â rhoi rhybuddion, os oes angen.

## Oes eithriadau i'r rheolau?

Bydd rhai eithriadau – gan gynnwys cartrefi sy angen taflu lludw.

Fydd y rheolau newydd ddim yn cael eu gweithredu'n llym dros gyfnod yr ŵyl.

## Oes cyfyngiad o ran nifer y bagiau ailgylchu mae modd eu rhoi allan i'w casglu?

Rhowch gynifer o fagiau ailgylchu clir, bagiau ailgylchu gwastraff bwyd a bagiau cewynnau ag yr hoffech allan i'w casglu bob wythnos – byddwn ni'n casglu pob un ohonyn nhw.

MAE'R DEWIS YN GLIR. RCTCBC.GOV.UK/BINIAUACAILGYLCHU

RHONDDA CYNON TAF